LIVING ROOM CARDIFF'S

# PRAYER FOR EASTER

Pray for us ...
We, without work and direction, worn down by our constant hoping against hope.
We live amongst you ...
We, alive but not living.
Don't think that you know what we need ...
How could you know, when we ourselves don't know?
And ... even if we did know ... would anyone be willing to listen?
Pray that someone will listen.
Be the answer to your own prayer – listen.
Listen to us, listen for us. Listen for the sound of hope delayed.
Raise your voice, not only for us, but with us ...

Pray for us ...
We, the dependent ... addicted.
Some of us are obviously dependent.
Some forms of dependence are difficult to hide, but some of us are in disguise. We have perfected the pretence. We, the dependent, depend on you not knowing that we are dependent.
We are the 'free' slaves ...
We are the 'strong' weaklings ...
We are the 'unwell' 'I'm very well, thank you' ...
We live amongst you ...
We live at the push of the syringe ...
We live at the rim of the glass ...
We live at the click of the image ...
We live by 'just this one time, and then never again'...
Don't think that you know what we need ...
How could you know, when we ourselves don't know?
And ... even if we did know ... would anyone be willing to listen?
Pray that someone will listen.
Pray for those individuals, organisations and institutions that listen and offer strength and comfort.
Pray for those that bring us out from our hiding places, who give us strength to claim our weakness as our own, and remind us that failure is what we do, not what we are.

Pray for us ...
the successful ...
the busy ...
the influential and impressive ...
We live amongst you ...
We, alive but not living.
Don't think that you know what we need ...
How could you know, when we ourselves don't know?
And ... even if we did know ... would anyone be willing to listen?
Pray that someone will listen.
Pray for us ...
Pray that someone will show us exactly what is enough.

Pray for us …
the crowd ...
the majority ...
amongst whom you live …
General, we are the 'General Public' ... generally living.
Don't try to hide amongst us ...

God finds us all and will find you. For Him there is no 'General Public'; there is only 'Specifically You'. 'You' standing out from the crowd ...
Let God find you; let him make use of you ...
He could use you to change the world ...
We all have work to do for Him...
Will you put your back into it?
Pray that we shall all know where best to begin.

**Listen** says Jesus, **All authority in heaven and on earth has been given to me. Therefore go and be my disciples ... And surely I am with you always, to the very end of the age.** (Matthew 28:18-20 New International Version)

GWEDDI STAFELL FYW CAERDYDD AR GYFER

# Y PASG

Gweddïwch drosom …
Pobl diweithdra a diflastod, pobl undonedd y dalifyn-drwydd.
Rydym yn byw yn eich plith …
Rydym yn byw ar ben ein tennyn.
Peidiwch â meddwl eich bod yn gwybod beth sydd ei angen arnom …
Ni wyddom beth sydd ei angen arnom, a phe baem ni'n gwybod … pwy fyddai'n gwrando?
Gweddïwch y bydd rhywun yn gwrando.
Byddwch yn gyfrwng ateb eich gweddïau – gwrandewch.
Clustfeiniwch ar gri'r anghenus …
Gwrandewch arnom, gwrandewch ar ein rhan.
Codwch lais er mwyn i'n llais ni gael ei glywed.

Gweddïwch drosom …
Pobl sy'n gaeth …
Mae rhai ohonom yn amlwg gaeth.
Anodd cuddio ambell gaethiwed, ond … mae rhai ohonom wedi meistroli'r grefft o guddio ein dibyniaeth a chelu ein caethiwed.
Rydym yn 'rhydd' yn ein caethiwed…
Rydym yn 'gryf' yn ein gwendid …
Rydym yn 'iach' yn ein hafiechyd.
Rydym yn byw yn eich plith …
Rydym yn byw ar flaen nodwydd …
Rydym yn byw ar ymyl gwydr …
Rydym yn byw ar glic y llun nesaf …
Rydym yn byw ar ddweud 'dim ond unwaith eto, ac wedyn byth mwy' …
Peidiwch â meddwl eich bod yn gwybod beth sydd ei angen arnom …
Ni wyddom beth sydd ei angen arnom, a phe baem ni'n gwybod … pwy fyddai'n gwrando?
Gweddïwch y bydd rhywun yn gwrando.
Gweddïwch dros yr unigolion, y mudiadau a'r sefydliadau sy'n cynnig clust a gwrandawiad llawn cysur.
Gweddïwch dros y rheini sy'n mentro tynnu sylw at ein dibyniaeth; sy'n mynnu cynnal y rhai dibynnol; sy'n estyn cyfle am gyfle arall.

Gweddïwch drosom …
y llwyddiannus,
y prysur
y dylanwadol …
Rydym yn byw yn eich plith …
Rydym yn byw ar garlam gwyllt.
Peidiwch â meddwl eich bod yn gwybod beth sydd ei angen arnom …
Ni wyddom beth sydd ei angen, a phe baem ni'n gwybod … pwy fyddai'n gwrando?
Gweddïwch drosom …
Gweddïwch y bydd rhywun yn dangos i ni beth yw digon a beth yw gwir angen.

Gweddïwch drosom …
y dyrfa …
y mwyafrif llethol – wedi ein llethu –
yr ydych chi'n byw yn ein plith …
Cyffredin ydym, yn byw bywydau cyffredin.
Peidiwch holi am gael cuddio yn ein plith …

Hyd yn oed pe bai unrhyw un ohonom yn llwyddo i guddio yn y dyrfa, byddai Duw yn ein ffeindio ni. Mae Duw yn mynnu ffeindio pobl i fod yn gyfryngau ffydd, gobaith, cariad: adferiad.
Caniatawn i Dduw ein ffeindio yn y dyrfa …
Rydym i gyd yn bobl y mae Duw am eu defnyddio i drawsnewid y byd.
Mae gwaith Duw yn waith i ni i gyd …
Ni yw cenhadon ei fwriad …
Ei weithwyr yn y gymdeithas …
Gweddïwch drosom fel y byddwn yn gwybod lle'n union i ddechrau.

**Gwrandewch,** meddai Iesu, ein Harglwydd, **Rhoddwyd i mi bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear. Ewch, gan hynny, a byddwch yn ddisgyblion i mi … Yr wyf fi gyda chwi bob amser hyd ddiwedd y byd** (Mathew 28:18-20 BCN).

STAFELL FYW CAERDYDD
YN AGOR Y DRWS I FYWYD NEWYDD
LIVING ROOM CARDIFF
OPENING THE DOOR TO A NEW LIFE

WWW.LIVINGROOM-CARDIFF.COM